

Rhif: WG43017



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Canllawiau Statudol Drafft – Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau)

Rhagfyr 2021

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-555-5

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y canllawiau drafft ar gyfer CBCau, i gefnogi'r broses o sefydlu CBCau.

Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir cael y ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill yn ôl y gofyn.

Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Is-adran Perfformiad a Phartneriaethau Llywodraeth Leol
Y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: LGPartnerships@llyw.cymru

Copïau Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cynnwys

ADRAN UN: Cefndir i'r ymgynghoriad	4
Ymatebion a ddaeth i law.....	5
ADRAN DAU: Crynodeb o'r Ymatebion	6
Cwestiwn Un yr Ymgynghoriad:	6
Cwestiwn Dau'r Ymgynghoriad	7
Cwestiwn Tri'r Ymgynghoriad.....	8
Cwestiwn Pedwar yr Ymgynghoriad.....	8

ADRAN UN: Cefndir i'r ymgynghoriad

Ar 12 Gorffennaf 2021, lansiodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) ymgynghoriad ar Ganllawiau Statudol Drafft i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau), fel y darperir ar eu cyfer yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau).

Hwn oedd y trydydd ymgynghoriad hyd yn hyn ar sefydlu CBCau.

Roedd yr ymgynghoriad cyntaf, a ddaeth i ben ar 4 Ionawr 2021, mewn perthynas â Rheoliadau Sefydlu drafft a fyddai'n galluogi pedwar CBC i gael eu sefydlu yng Nghymru. Cafodd y Rheoliadau Sefydlu hyn eu gwneud ar 17 Mawrth 2021, ochr yn ochr â nifer o offerynnau statudol, a oedd yn sicrhau y byddai Cyd-bwyllgorau Corfforedig o'r diwrnod cyntaf yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau y byddai disgwyl iddynt fod yn berthnasol i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru; a hefyd i sicrhau llywodraethu a goruchwyliaeth briodol. Cyhoeddir canlyniad yr ymgynghoriad hwn [yma](#).

Parhaodd yr ail ymgynghoriad â'r broses o sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol y byddai CBCau yn gweithredu o'i fewn, a gofynnodd am farn ar gymhwyso elfennau penodol ar y fframwaith hwnnw, fel y darperir ar ei gyfer gan Reoliadau Drafft Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 ("Rheoliadau Rhif 2 Drafft"). Parodd yr ail ymgynghoriad hwnnw am 8 wythnos rhwng 12 Gorffennaf a 6 Medi 2021, a chyhoeddir canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw [yma](#).

Roedd y trydydd ymgynghoriad hwn ar y canllawiau drafft ar gyfer CBCau o dan ran 5 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru fel rhan o broses ymgynghori ffurfiol a gynhaliwyd rhwng 12 Gorffennaf 2021 a 4 Hydref 2021. Mae adran 86 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn darparu bod rhaid i brif gynghorau a CBCau roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â Rhan 5 Penodau 3, 4 a 5 o'r Ddeddf honno, ac, mewn perthynas ag awdurdodau Parciau Cenedlaethol sy'n ymwneud â Rhan 5 Penodau 4 a 5.

Anfonwyd y ddolen i'r ddogfen ymgynghori at ystod eang o randdeiliaid, a bydd nifer ohonynt yn ymwneud â sefydlu'r CBCau, ac felly mae eu hadborth yn allweddol i'n helpu i ddeall a yw'r canllawiau'n darparu lefel y manylder a'r eglurder y mae arnynt eu hangen. Darparwyd fersiynau ar-lein o'r ddogfen ymgynghori ffurfiol, canllawiau statudol drafft a ffurflen ymateb hefyd yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â'r broses ymgynghori ffurfiol, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â swyddogion allweddol yr awdurdodau lleol ar ddatblygu'r canllawiau drafft. Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu ehangach a sesiynau briffio technegol yn ystod yr ymgynghoriadau blaenorol ar y fframwaith deddfwriaethol, ac mae'r cwestiynau gan randdeiliaid yn ystod y sesiynau hynny wedi helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau i sicrhau bod yr atebion i'r rheini, a chwestiynau posibl eraill, wedi'u hymgorffori.

Ymatebion a ddaeth i law

Arweiniodd y broses ymgynghori at 17 o ymatebion ysgrifenedig. Nodir yr ymatebwyr fel a ganlyn:

- 9 o Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - CLILC)
- 1 Cyd-bwyllgor Corfforedig
- 1 Comisiynydd
- 2 o Archwilwyr / Rheoleiddwyr
- 1 sefydliad y Trydydd Sector
- 1 Corff cynrychioliadol, corff proffesiynol neu gymdeithas
- 1 Undeb Llafur
- 1 sefydliad y GIG

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn **Atodiad A**.

ADRAN DAU: Crynodeb o'r Ymatebion

Bwriedir y ddogfen hon fel crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Nid yw'n anelu at ddisgrifio yn fanwl pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr. Gofynnodd yr ymgynghoriad ddeg cwestiwn, ac mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymateb i bob un. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau a godwyd, a'r effaith y bydd yr adborth yn ei chael ar y ddogfen ganllawiau derfynol, yn cael ei nodi ar ddiwedd y ddogfen hon.

Cwestiwn Un yr Ymgynghoriad:

Gofynnodd cwestiwn 1 am farn ynghylch a oedd y canllawiau drafft yn darparu lefel briodol o gymorth i CBCau i roi'r trefniadau angenrheidiol ar waith ar gyfer gweinyddu a llywodraethu'r CBC yn briodol. Os nad oeddent, gofynnwyd am farn yr ymatebwyr ynghylch pa wybodaeth bellach y gellid ei hychwanegu.

Cafwyd cyfanswm o 14 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Oherwydd natur y cwestiwn roedd yr ymatebion yn cynnwys nifer o sylwadau ehangach ar y canllawiau a materion cysylltiedig eraill.

Roedd ymatebwyr yn cytuno yn gyffredinol fod y canllawiau'n ddefnyddiol heb fod yn rhy gyfarwyddol, a'u bod yn adlewyrchu'n gywir yr egwyddor sylfaenol y dylid trin CBCau fel "aelod o'r teulu llywodraeth leol" ac y dylent fod yn ddarostyngedig yn fras i'r un pwerau a dyletswyddau â phrif gynghorau. Soniodd ymateb CLILC am y ffaith bod y canllawiau wedi'u datblygu gyda gweithwyr proffesiynol llywodraeth leol ac yn gyffredinol ystyriwyd eu bod yn briodol gytbwys o ran manylder a hyblygrwydd.

Nodwyd, er hynny, fod heriau anochel i'r awdurdodau lleol o ran sefydlu CBCau o gofio dilyniant ac amseriad sawl set berthnasol o Reoliadau a chanllawiau cysylltiedig, a chyhoeddi'r Llawlyfr Democratiaeth arfaethedig. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at bwysigrwydd cyhoeddi'r Llawlyfr Democratiaeth yn gynnar i ategu nifer o feysydd a gwmpesir gan Bennod 1, ac i ddarparu cyd-destun pellach.

Cododd un ymatebydd bryder nad ymdriniwyd â mater ariannu'r CBC, a'i staffio, yn y canllawiau a theimlai y byddai angen lefel briodol o gyllid os bwriedir i nodau'r canllawiau gael eu cyflawni.

Nododd un ymatebydd werthfawrogiad o'r hyblygrwydd sydd wedi'i ddarparu bellach mewn perthynas â chraffu, ond nododd fod angen cymorth ac arweiniad ar wahân i alluogi'r cynghorau i symud i fodel rhanbarthol maes o law. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cadw lefel briodol o atebolrwydd lleol.

Cododd nifer o ymatebwyr y mater y dylai pwerau a dyletswyddau fod yn gymesur ac yn briodol ar gyfer y swyddogaethau a maint arfaethedig CBCau ac nad yw CBCau yn cael eu gor-reoleiddio a'u gorlwytho â dyletswyddau sylweddol sy'n fwy cymwys i gyrff mwy a llawer mwy cymhleth, megis prif gynghorau.

Bydd disgwyl i CBCau ddatblygu, cyhoeddi ac ymgynghori ac adrodd ar nifer o amcanion strategol, cynlluniau neu ddatganiadau (e.e. amcanion llesiant ac amcanion cydraddoldeb) tra'n datblygu hefyd eu dull o gyflawni swyddogaethau penodol, megis y cynllun datblygu strategol. Mae'r canllawiau'n cyfeirio at ble mae sawl dyletswydd o'r fath yn gymwys. Er hynny, teimlid y byddai'n ddefnyddiol ac yn rhoi eglurder pe gallai'r canllawiau terfynol gynnwys atodiad sy'n manylu ar bob un o'r

dyletswyddau pennu amcanion, cynllunio ac adrodd sy'n gysylltiedig â chyd-bwyllgorau corfforedig a'r dyddiadau cysylltiedig.

Dywedodd y sefydliad trydydd sector a ymatebodd nad yw'r canllawiau'n darparu lefel briodol o gymorth i CBCau i sicrhau bod cymunedau a sefydliadau cymunedol yn eu hardaloedd yn cael eu cynnwys yn briodol yn eu gwaith (fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015).

Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Archwilio Cymru o'r farn y byddai'n ddefnyddiol cael cyfeiriadau clir a chywir at ddeddfwriaeth drwy gydol y canllawiau lle bynnag y bo modd a bod angen iddi fod yn llawer cliriach a oedd y canllawiau'n ailddatgan gofynion deddfwriaeth neu'n nodi bwriad polisi. Roeddent o'r farn bod yr angen am gyfeiriadau yn arbennig o bwysig o gofio nifer y setiau o reoliadau a fyddai'n gymwys.

Yn ogystal, teimlai Archwilio Cymru hefyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai iaith y canllawiau'n cael ei gwneud yn gliriach ac yn fwy cryno ac mewn rhai achosion yn fwy cyfarwyddol, er enghraifft defnyddio 'dylai' yn hytrach na 'gallai'.

Cwestiwn Dau'r Ymgynghoriad

Gofynnodd cwestiwn 2 am farn ynghylch a oedd Pennod 1 o'r canllawiau yn darparu canllawiau digonol/priodol ar aelodaeth a chyfansoddiad CBCau. Os nad oedd, gofynnwyd am farn yr ymatebwyr ynghylch pa beth y byddent yn ei ychwanegu neu'i newid.

Cafwyd cyfanswm o 15 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Y pwyntiau allweddol a wnaed oedd:

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod Pennod 1 yn darparu canllawiau digonol/priodol ar aelodaeth a chyfansoddiad CBCau.
- Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r hyblygrwydd o fewn y canllawiau, ond mynegodd un ymatebydd bryder ynghylch a allai caniatáu hyblygrwydd o'r fath hefyd achosi anghysondeb ar draws gwahanol ardaloedd daearyddol. Mynegwyd rhywfaint o bryder hefyd nad oedd y canllawiau'n ddigon diffiniadol ac y byddent, felly, yn gadael y CBCau gyda gwaith i'w wneud o ran penderfynu ar y ffordd briodol ymlaen.
- Roedd barn y dylai'r fframwaith llywodraethiant a gweinyddol ar gyfer y CBCau ddarparu'r un lefel o atebolrwydd democrataidd ag ar gyfer yr awdurdodau lleol.
- Croesawyd y gofyniad i benodi aelodau gweithredol newydd a dirprwyol, ynghyd â chyfethol unigolion i eistedd ar is-bwyllgorau.
- Credai un ymatebydd nad oedd fawr ddim yn y canllawiau i sicrhau bod amrywiaeth lawn cymunedau mewn ardal CBC yn ymwneud yn ystyrlon â phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau ac fe geisiodd fandadu pellach o ran cyrff y trydydd sector etc.
- Roedd nifer o feysydd penodol lle'r oedd ymatebwyr yn teimlo y gallai canllawiau ychwanegol fod yn ddefnyddiol.

Cwestiwn Tri'r Ymgynghoriad

Gofynnodd cwestiwn 3 a oedd ymatebwyr yn teimlo bod Pennod 2 yn darparu canllawiau digonol/priodol ar faterion yn ymwneud â staffio a gweithlu CBC. Os nad oedd, gofynnwyd am farn yr ymatebwyr ynghylch pa beth ddylai gael ei ychwanegu neu'i newid.

O'r 17 o ymatebion, ni fanteisiodd pedwar ar y cyfle i ychwanegu unrhyw sylwadau at gwestiwn 3. O'r rhai a roddodd sylwadau, y prif bwyntiau a godwyd oedd:

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod Pennod 2 yn darparu canllawiau digonol/priodol gan ei bod yn darparu hyblygrwydd o ran opsiynau.
- Croesawodd yr ymatebwyr yr awgrym yn y canllawiau y gall fod patrwm cymysg o gyflogaeth ond yr hoffent i swyddogion ystyried gwirfoddoli a secondiad i CBCau ac oddi wrthynt fel rhywbeth y dylid mynd i'r afael ag ef yn y canllawiau.
- Ni ddylid trin cyflogeion CBC yn llai/yn fwy ffafriol na chyflogeion cyngor.
- Dylai'r un cyfyngiadau gwleidyddol, codau ymddygiad, dyletswyddau statudol ac indemnïadau sy'n gymwys i staff yr awdurdodau lleol hefyd fod yn gymwys i gyflogeion a swyddogion y CBC.
- Roedd un ymatebydd yn credu y gallai secondio staff i'r CBC roi mwy o ddiogelwch i staff yn hytrach na throsglwyddiad TUPE a gofynnodd ymatebydd arall am ganllawiau pellach ar sefyllfa TUPE a sut y gallai hynny fod yn gymwys i CBC, yn enwedig lle'r oedd staff yn trosglwyddo i mewn o wahanol awdurdodau gyda thelerau ac amodau gwahanol.
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai'r iaith a ddefnyddir mewn rhai meysydd o'r canllawiau fod yn fwy pendant, er enghraifft, newid "gallai" i "dylai".

Yn yr ymatebion, dylid nodi bod sawl ymatebydd wedi nodi y bydd materion capasiti, yn gorfforaethol ac o fewn meysydd gwasanaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau CBC, yn her allweddol wrth sefydlu a chefnogi CBCau.

Cwestiwn Pedwar yr Ymgynghoriad

Gofynnodd cwestiwn 4 a oedd pennod 3 yn darparu canllawiau digonol/priodol ar sut y dylai CBCau gynnal cyfarfodydd a thrafodion. Os nad oedd, gofynnwyd am farn yr ymatebwyr ynghylch pa beth ddylai gael ei ychwanegu neu'i newid.

O'r 17 o ymatebion, ni fanteisiodd pedwar ar y cyfle i ychwanegu unrhyw sylwadau at gwestiwn 4. O'r rhai a roddodd sylwadau, y prif bwyntiau a godwyd oedd:

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod Pennod 3 yn cymhwyso'r un trefniadau llywodraethiant corfforaethol â'r awdurdodau lleol.
- Croesawodd yr ymatebwyr y canllawiau a eglurodd y dylai'r trefniadau fod mor agored a thryloyw â rhai'r prif gynghorau. Teimlid bod materion o ran tryloywder a bod yn agored yn hanfodol, a chroesawodd yr ymatebwyr y ffaith bod y canllawiau'n adlewyrchu'r cyfrifoldebau ar yr awdurdodau lleol.

- Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo nad oedd yr iaith ym mharagraff 46.5 yn ei gwneud yn glir y byddai CBCau yn ddarostyngedig i'r un ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Awgrymodd un ymatebydd y gallai'r ddarpariaeth ar gyfer Is-bwyllgorau gynnis cyfle i wneud cysylltiadau a chyfarfodydd yn fwy pendant eu canolbwynt.
- Gofynnodd un ymatebydd am eglurder ar y cyfeiriad at y "cyfarfod cyntaf" ym mharagraff 28.
- Nododd ymatebydd arall y byddai o gymorth pe bai darpariaethau penodol yn cael eu cynnwys i CBCau fynnu bod gofynion arbennig ar gyfer pleidleisio drwy fwyafrif ar gyfer penderfyniadau penodol.
- Argymhellodd dau ymatebydd y dylai'r canllawiau gryfhau a diffinio sut y bydd CBCau yn hybu cyfranogiad y cyhoedd a'r gymuned yn eu penderfyniadau fel y nodir ar hyn o bryd ym mharagraff 25.3.
- Fel gyda chwestiwn 3, roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai'r iaith a ddefnyddir mewn rhai meysydd o'r canllawiau fod yn fwy pendant, er enghraifft, newid "gallai" i "dylai".

Cwestiwn Pump yr Ymgynghoriad

Gofynnodd cwestiwn 5 a oedd pennod 4 yn darparu canllawiau digonol/priodol ar y llywodraethiant o fewn CBC, a'r gwaith craffu arno. Os nad oedd, gofynnwyd am farn yr ymatebwyr ynghylch pa beth ddylai gael ei ychwanegu neu'i newid.

O'r 17 ymateb, roedd gan 11 sylwadau ychwanegol mewn perthynas â chwestiwn 5. O'r ymatebion hynny, roedd y mwyafrif yn cytuno bod Pennod 4 yn darparu canllawiau digonol/priodol. Y pwyntiau allweddol a wnaed oedd:

- Croesawodd un ymatebydd eglurhad y bydd trefniadau perfformiad Rhan 6 (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau, Cymru) yn gymwys i CBCau.
- Rhaid i Swyddogion Monitro sicrhau bod gan bwyllgorau craffu lwybrau agored a hygyrch ar gyfer ymgysylltu fel y gall yr holl randdeiliaid, gan gynnwys y sector gwirfoddol, ymgysylltu.
- Gallai'r darpariaethau craffu fod yn fwy manwl ac egluro sut y bydd y trefniadau trosolwg a chraffu ar gyfer y CBC yn gweithredu ar y cyd â'r trefniadau craffu lleol ym mhob awdurdod lleol.
- Gallai'r canllawiau fod yn gliriach ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan CBCau mewn perthynas â sut y dylai gofynion statudol presennol cyrff cyhoeddus (e.e. Amcanion Llesiant, Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, Safonau'r Gymraeg etc.) gael eu gweithredu a chael adnoddau gan CBCau i sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu cyflawni yn effeithiol ac yn amserol.
- Roedd y canllawiau'n rhoi digon o hyblygrwydd i CBCau ac awdurdodau benderfynu ar eu trefniadau eu hunain ar gyfer craffu ac yn caniatáu digon o hyblygrwydd i fabwysiadu'r model craffu mwyaf priodol i weddu i anghenion lleol.

- Roedd un ymatebydd yn teimlo nad oedd y canllawiau'n egluro sut y gallai'r CBCau sicrhau'r arbenigedd angenrheidiol i ddarparu gwaith craffu trylwyr a chadarn.
- Byddai canllawiau pellach o fudd ar rôl Craffu a'r broses Llywodraethiant ac Archwilio fel rhan o drefniadau cyffredinol a'r gwahanol faterion y gellir eu gweithredu.

Cwestiwn Chwech yr Ymgynghoriad

Gofynnodd cwestiwn 6 a oedd Pennod 5 yn darparu canllawiau digonol/priodol ar faterion ariannu, cyllid a chyllidebol CBC. Os nad oedd, gofynnwyd am farn yr ymatebwyr ynghylch pa beth ddylai gael ei ychwanegu neu'i newid.

O'r 17 o ymatebion, ni fanteisiodd pedwar ar y cyfle i ychwanegu unrhyw sylwadau at gwestiwn 6. Dywedodd un ymatebydd nad oedd yn cytuno bod Pennod 5 yn darparu canllawiau digonol/priodol, ond ni wnaethant ddefnyddio'r cyfle i ehangu ar eu rhesymu. O'r ymatebion eraill, roedd nifer a fanteisiodd ar y cyfle i wneud sylwadau mwy cyffredinol ar ariannu CBCau. Y pwyntiau allweddol oedd:

- Mae ansicrwydd o hyd ynghylch y broses ar gyfer cyllidebau cyfun ac adnoddau cyfunol ar draws awdurdodau lleol a phartneriaid.
- Mae diffyg eglurder o ran sut y bydd y sector gwirfoddol yn cael ei ystyried ynghylch cyllid mewn perthynas â CBCau, fel derbynnydd unrhyw gyllid a ddsberthir gan CBC, neu fel ariannwr CBC. Mae diffyg eglurder hefyd ynghylch sut y gellir comisiynu gwaith rhwng y CBCau ac a fydd y sector gwirfoddol ar sail gyfartal i gael arian fel rhan o hyn.
- Mae CBCau yn wynebu'r risg na fydd ganddynt ddigon o adnoddau oherwydd diffyg arweiniad ynghylch ariannu CBC yn fwy cyffredinol.

Dylid nodi bod nifer o ymatebwyr wedi achub y cyfle yn eu hateb i gwestiwn 6 i fynegi barn y byddai angen i gyllid ar gyfer CBCau gael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru er mwyn darparu adnoddau. Achubodd un ymatebydd y cyfle hwn i hybu ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol i nodi anghenion ariannu.

Roedd nifer o feysydd penodol lle'r oedd ymatebwyr yn teimlo y gallai canllawiau ychwanegol fod yn ddefnyddiol mewn perthynas â materion ariannu, cyllid a chyllidebol CBC:

- Gofynnodd un ymatebydd am eglurder ynghylch a oes angen Datganiad Llywodraethiant Blyneddol.
- Gofynnodd un ymatebydd fod y term "archwiliad allanol" yn cael ei ddiffinio gydag esboniad o sut y mae hyn yn gysylltiedig â'r pwerau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol newydd.
- Gofynnodd un ymatebydd am eglurder ynghylch a oedd cyfeiriad at "symiau sy'n daladwy" ym mharagraff 36.5 yr un fath â'r "symiau sy'n daladwy gan bob un o'r cynghorau cyfansoddol" y cyfeirir atynt ym mharagraff 36.6.
- Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol alinio paragraff 36.7 yn agosach at ofynion Rheoliad 16(8) o'r Rheoliadau Sefydlu.
- Nododd un ymatebydd nad yw paragraff 38.1 yn dweud bod rhaid pennu'r gyllideb ar gyfer 2021-22 erbyn 31 Ionawr 2022, fel sy'n ofynnol gan Reoliad

16 o'r Rheoliadau Sefydlu. Roeddent yn teimlo bod y hepgoriad hwn yn peri risg y bydd CBCau yn anwybyddu'r angen i bennu eu cyllidebau blwyddyn gyntaf erbyn 31 Ionawr 2022.

- Teimlai un ymatebydd fod risg y bydd yr ymadroddion "rhagwelir" a "gellid disgwyl" yn awgrymu bod rhyw elfen o ddewis ym mharagraff 39.4.

Cwestiwn Saith yr Ymgynghoriad

Gofynnodd cwestiwn 7 a oedd Pennod 6 yn darparu canllawiau digonol/priodol ar y dyletswyddau statudol eraill y bydd CBCau yn ddarostyngedig iddynt. Os nad oedd, gofynnwyd am farn yr ymatebwyr ynghylch pa beth ddylai gael ei ychwanegu neu'i newid.

O'r 17 o ymatebion, ni fanteisiodd pedwar ar y cyfle i ychwanegu unrhyw sylwadau at gwestiwn 7. O'r rhai a roddodd sylwadau, y prif bwyntiau a godwyd oedd:

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod Pennod 6 yn cynnwys crynodeb defnyddiol o'r dyletswyddau statudol a chroesawir y manylion a gwmpesir gan yr adran hon o'r canllawiau.
- Roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau'n cwmpasu'r holl feysydd deddfwriaethol a pholisi allweddol sy'n ofynnol ar gyfer sefydliadau cyhoeddus megis CBCau.
- Credai un ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol i'r canllawiau gyfeirio at y ffaith bod rheoliadau'n gosod rhwymedigaeth ar CBCau i bennu, ac adrodd ar, nifer o Amcanion Cydraddoldeb. Roeddent o'r farn y dylai'r canllawiau awgrymu sut y byddai'r rhwymedigaeth yn cael ei chyflawni, gan gydnabod y bydd gan bob awdurdod lleol cyfansoddol Gynlluniau ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol eisoes.
- Nododd un ymatebydd nad yw'r canllawiau'n cyfeirio at Reoliadau Gwybodaeth am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2017, er y tybir na fydd hyn yn gymwys gan fod gan CBC lai na 250 o weithwyr. Teimlid y gallai fod yn ddefnyddiol nodi bod hyn yn wir.
- Unwaith eto, roedd un ymatebydd yn teimlo y dylai'r iaith a ddefnyddir mewn rhai meysydd o'r canllawiau fod yn fwy pendant, er enghraifft, newid er enghraifft newid "dewisol" i "orfodol".
- Er bod y canllawiau'n cyfeirio at ble mae dyletswyddau'n gymwys, teimlai un ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol ac yn rhoi eglurder pe gallai'r canllawiau terfynol gynnwys atodiad yn manylu ar bob un o'r dyletswyddau pennu amcanion corfforaethol, cynllunio cyhoeddi ac adrodd a'r dyddiadau cysylltiedig.

Cwestiwn Wyth yr Ymgynghoriad

Gofynnodd cwestiwn 8 am farn ymatebwyr am yr effeithiau y byddai'r canllawiau yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gofynnodd beth fyddai'r effeithiau ym marn yr ymatebwyr, a sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol.

O'r 17 o ymatebion, ni fanteisiodd pedwar ar y cyfle i ychwanegu unrhyw sylwadau at gwestiwn 8. O'r rhai a roddodd sylwadau, y prif bwyntiau a godwyd oedd:

- Croesawodd yr ymatebwyr gadarnhad yn y canllawiau y bydd CBCau yn cael eu rhwymo gan yr un rheoliadau a safonau â chyrrff cyhoeddus eraill o ran defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg.
- Ceisiodd ymatebwyr sicrhau bod cymorth yn cael ei roi i CBCau i hyrwyddo'r Gymraeg, gan wneud yr iaith yn rhan o gynllunio'r gweithlu, darparu gwasanaethau i aelodau'r cyhoedd yn eu dewis iaith a chydymffurfio â dyletswyddau a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Cododd dau ymatebydd fater costau cyfieithu ac roeddent yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol pe gellid darparu cyllid i helpu i sicrhau y gellir cyfieithu'n llawn.
- Cododd un ymatebydd bryderon yn ymwneud â ffiniau a sut y gallai CBC erydu'r arferion Cymraeg presennol yn yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Er mwyn amddiffyn rhag hyn, barn yr ymatebydd oedd y dylai CBC bob amser gadw at arferion yr awdurdod hwnnw sydd â'r "arferion gorau" ar hyn o bryd ac awgrymodd ddiwygio'r canllawiau i hyrwyddo cydweithio agosach, neu gydweithio penodol, o ran y Gymraeg.
- Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn ei hymateb o'r farn bod hwn yn gyfle gwych i sefydlu'r arfer o weinyddu'r CBCau drwy gyfrwng y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf.

Cwestiwn Naw'r Ymgynghoriad

Gofynnodd Cwestiwn 9 i'r ymatebwyr esbonio sut yr oeddent yn credu y gallai'r canllawiau gael eu llunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau positif, neu gynyddu effeithiau positif, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a sicrhau nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

O'r 17 ymateb, 7 yn unig roddodd sylwadau ychwanegol mewn perthynas â chwestiwn 9. Y pwyntiau allweddol oedd:

- Croesawodd yr ymatebwyr gadarnhad yn y rheoliadau y bydd CBCau yn cael eu rhwymo gan yr un rheoliadau a safonau â chyrrff cyhoeddus eraill o ran defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg.
- Roedd yr ymatebwyr yn fodlon â'r canllawiau a oedd yn ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- Fel gyda chwestiwn 8, ailadroddwyd y mater ynghylch costau cyfieithu. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol pe gellid darparu cyllid i helpu i sicrhau y gellir cyfieithu'n llawn.
- Credai nifer o ymatebwyr y gallai ymgynghori ar y Safonau a dadansoddi gwahanol lefelau cydymffurfio a hysbysiadau cydymffurfio ar draws ALLau cyfansoddol helpu i liniaru negyddoldeb pan fydd CBCau yn dod ag awdurdodau ynghyd a allai fod â Safonau gwahanol.

Cwestiwn Deg yr Ymgynghoriad

Gofynnodd cwestiwn 10 i ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw faterion cysylltiedig nad oeddem wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, a'u gwahodd i fynegi eu barn.

O'r 17 ymateb, 6 yn unig roddodd sylwadau ychwanegol mewn perthynas â chwestiwn 10.

Er hynny, nid oedd y mwyafrif o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ymwneud yn benodol â'r canllawiau drafft ac roeddent yn cynnwys sylwadau mewn perthynas â:

- Gweithgarwch cynllunio trafndiaeth rhanbarthol presennol gan lywodraeth leol
- Cynlluniau Trafndiaeth Lleol
- Ariannu CBCau yn gyffredinol
- Ymgysylltu â'r awdurdodau lleol
- Effaith bosibl deddfwriaeth gaffael y DU ar bŵer yr awdurdod lleol i fasnachu

Roedd nifer o feysydd penodol lle'r oedd ymatebwyr yn teimlo y gallai eglurder yn y canllawiau fod yn ddefnyddiol. Er enghraifft:

- Ceisiwyd eglurder pellach ar y sail statudol ar gyfer gosod nifer o ddyletswyddau Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i Swyddogion Monitro CBC.
- Ceisiwyd eglurder pellach ar y sail statudol ar gyfer galw cyfarfod cyffredinol eithriadol o CBC, yn enwedig o'i gymharu â darpariaethau o fewn Deddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer prif gynghorau.
- Gofynnwyd am eglurder pellach ar hawliau pleidleisio Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.
- Teimlid y dylid diwygio'r term "cyfranogwyr cyfetholedig" i "aelodau cyfetholedig" er mwyn adlewyrchu deddfwriaeth awdurdodau lleol yn well.
- Gofynnwyd am gysondeb ar y derminoleg a ddefnyddiwyd wrth gyfeirio at unigolion sy'n gallu mynychu cyfarfodydd CBC fel cynghorwyr neu sylwedyddion, gan nodi bod angen eglurder pellach ar gyfeiriadau ym mharagraffau 4.5 a 12.5.

ADRAN PEDWAR – Y Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r holl ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn fel rhan o'r gwaith parhaus o gyd-ddatblygu'r dull o ymdrin â'r model CBC a'i weithredu. Er na fydd yr adroddiad hwn yn darparu ymateb i bob un o'r materion a godwyd, bydd yr ymatebion yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn ofalus wrth ystyried cwblhau'r canllawiau statudol a, lle y bo'n berthnasol, i ddatblygu gweddill yr agweddau ar y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer CBCau.

Mewn cytundeb â llywodraeth leol, defnyddiwyd dull gweithredu graddedig o ran datblygu'r deddfwriaeth sy'n sail i CBCau. Mae'r dull gweithredu graddedig hwn yn dod â her unigryw i ddatblygu a chyhoeddi'r canllawiau, un a nodwyd gan lawer o ymatebwyr wrth alw am eglurder pellach rhwng lle mae'r canllawiau'n adlewyrchu deddfwriaeth sydd wedi'i gwneud, a'r bwriad polisi ar gyfer y rheoliadau hynny sydd heb eu gwneud eto. Uchelgais Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod y canllawiau'n cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl i gefnogi sefydlu'r CBCau, gwaith sydd eisoes ar y gweill. Mewn ymateb, byddwn yn sicrhau bod y canllawiau cyhoeddedig yn nodi'n glir ble mae'r canllawiau'n ymwneud â deddfwriaeth a wnaed, a lle mae'n ymwneud â deddfwriaeth arfaethedig yn y dyfodol. Wrth i weddill y deddfwriaeth llywodraeth leol berthnasol gael ei rhoi ar waith, bydd canllawiau CBC yn cael eu diweddarau i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu'n llawn y sefyllfa ddiweddaraf ar y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y CBCau.

Nodir bod cefnogaeth eang i'r canllawiau fel y maent, ac ystyriwyd bod yr ymagwedd at gyd-ddatblygu yn werthfawr ac yn adeiladol ac yn allweddol i sicrhau bod y canllawiau'n adlewyrchu anghenion CBCau a'u cynghorau cyfansoddol. Codwyd rhai pwyntiau cyffredinol lle gellid gwneud newidiadau i'r canllawiau i gryfhau hygyrchedd y deddfwriaeth ar gyfer CBCau, er enghraifft er mwyn sicrhau bod cyfeiriadau clir at y deddfwriaeth berthnasol yn cael eu cynnwys lle bynnag y bo modd. Cafwyd llawer o ymatebion hefyd i eiriad penodol o fewn y canllawiau, naill ai'n ceisio cryfhau pwrpas neu eglurder pellach o ran ystyr. Bydd pob un o'r rhain yn cael eu hystyried yn eu tro wrth i fanylion llawn y canllawiau gael eu pennu.

Fel sy'n digwydd yn aml wrth ddatblygu canllawiau, roedd safbwyntiau cymysg ar y dull gweithredu o fewn y canllawiau o ran darparu ar gyfer hyblygrwydd lleol, gyda rhai ymatebwyr yn croesawu hyn ac eraill yn ffafrio mwy o gyfarwyddyd a manylion. Mae'r canllawiau drafft yn ceisio nodi'r egwyddorion a'r gwerthoedd craidd ynghylch sut dylai CBCau weithredu, a'r materion y bydd aelodau am eu hystyried wrth roi trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol CBC ar waith. Bwriedir i'r rheoliadau sy'n sefydlu CBCau ddarparu hyblygrwydd a hwyluso disgresiwn lleol, ac mae'n bwysig i aelodau CBCau benderfynu drostynt eu hunain beth sy'n briodol, a beth sy'n diwallu eu hanghenion wrth ddatblygu eu trefniadau cyfansoddiadol a gweithredol. Felly, ni fwriedir i'r canllawiau fod yn rhagnodol ynghylch ffurf y trefniadau hyn ond i gefnogi CBCau i fabwysiadu dull cymesur o ymdrin â threfniadau o'r fath, gan eu galluogi i addasu i amgylchiadau lleol. Cydnabyddir y bydd hyn yn arwain at rywfaint o amrywiad o ran sut y gallai CBCau edrych a gweithredu ym mhob rhanbarth. Mae hyn yn fwriadol.

Yn yr un modd, dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai'r canllawiau statudol fod yn llawer mwy rhagnodol ac y dylai fod yn ofynnol i'r CBC wneud rhai pethau yn hytrach nag awgrymu pethau y gallent eu gwneud. Mae'n bwysig bod y canllawiau nid yn unig yn darparu'r hyblygrwydd y mae llywodraeth leol yn gofyn amdano, fel y trafodwyd uchod, ond nad yw'r canllawiau, yn ogystal, yn cynnwys, nac yn ceisio cynnwys, unrhyw ddyletswyddau na ddarperir ar eu cyfer yn y deddfwriaeth ar CBCau ei hun.

Mae'n bwysig nodi mai canllawiau hyn ar drefniadau cyfansoddiadol a gweithredol CBC yw'r rhain, nid ar y swyddogaethau a gaiff eu harfer. Bydd canllawiau ar wahân ar baratoi Cynllun Datblygu Strategol a pharatoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Yn yr un modd, bydd gan lawer o ddyletswyddau cyrff cyhoeddus a fydd yn gymwys CBCau eu canllawiau eu hunain hefyd. Ni fwriedir i'r canllawiau hyn ailgreu neu ailddehongli canllawiau eraill. Yn hytrach, y bwriad yw cyfeirio'r CBC at y canllawiau priodol lle bo modd. Er enghraifft, yn achos y Llawlyfr Democratiaeth Leol sydd i'w gyhoeddi ddechrau'r flwyddyn nesaf, lle bydd llawer o'r darpariaethau deddfwriaeth a gynhwysir yn y llawlyfr yn gymwys i lywodraethiant CBC.

Rydym hefyd yn cydnabod bod nifer o ymatebwyr wedi achub y cyfle i godi materion yn ymwneud ag ariannu'r CBCau yn fwy cyffredinol fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, gan geisio sicrwydd ynghylch digonolrwydd ariannu CBCau. Nid ydym yn credu ei bod yn briodol i'r canllawiau hyn fynd i'r afael â materion ariannu. Bydd angen ystyried y rhain ar wahân.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda CLILC, prif gynghorau a phartneriaid yn dilyn y broses ymgynghori hon a chyhoeddi'r canllawiau statudol terfynol er mwyn sicrhau bod CBCau yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus.

Y bwriad yw cyhoeddi'r fersiwn gyntaf o'r canllawiau cyn diwedd 2021. Fel y nodwyd eisoes, oherwydd natur raddedig y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth CBC, bydd y canllawiau yn cael eu diweddarw wedyn wrth i'r rheoliadau perthnasol gael eu cymeradwyo.

Fel rhan o'r cam nesaf o sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol, bydd ymgynghoriad ar set arall o reoliadau yn dod i ben ar 22 Rhagfyr 2021. Y gobaith yw y bydd y Senedd yn ystyried y set hon ym mis Mawrth 2022. Ymgynghorir ar brif set derfynol o reoliadau ar ddechrau 2022 gyda'r bwriad o ystyried y rheoliadau hyn gan y Senedd yn ystod haf 2022.

Atodiad A: Rhestr o Ymatebwyr

Yr Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - CLILC)

Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Dinas Caerdydd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cyd-bwyllgor Corfforedig

CBC Canolbarth Cymru (Cyngor Sir Powys / Cyngor Sir Ceredigion)

Comisiynydd

Comisiynydd y Gymraeg

Archwilwyr / Rheoleiddwyr

Archwilio Cymru
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Sefydliad y Trydydd Sector

Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

Corff cynrychioliadol, corff proffesiynol neu gymdeithas

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Undeb Llafur

UNSAIN Cymru

Sefydliad y GIG

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan